**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

21 Chwefror 2025

Annwyl Huw,

## Teitlau Arglwydd y Faenor

Ar 5 Chwefror, gwnaethom godi pwnc penodol gyda chi, sef y defnydd o deitlau Arglwydd y Faenor, gan gynnig ysgrifennu atoch er mwyn darparu manylion pellach. Mae Hefin a minnau eisoes wedi codi'r pwnc hwn gyda'ch rhagflaenydd a Chyfoeth Naturiol Cymru, a hynny yn rhinwedd ein rolau etholaethol.

Mae hawl hirsefydlog i ffermio tir comin yn bodoli ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o sefyllfaoedd lle mae unigolion wedi prynu teitl 'Arglwydd y Faenor', ac yna wedi defnyddio cyfreithiau canoloesol i feddiannu darnau o dir comin a gorfodi ffermwyr a phorwyr oddi ar y tir hwnnw. Nid dim ond ffermwyr y mae hyn yn effeithio arnynt, wrth gwrs. Unwaith y caiff tir ei feddiannu yn y modd hwn, bydd trigolion eraill yn cael eu hatal rhag mwynhau eu tiroedd comin lleol.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r cyfuniad o brisiau eiddo uwch, y cyfle i hawlio cymorthdaliadau amaethyddol a'r posibilrwydd o greu safleoedd pŵer adnewyddadwy arwain at sefyllfa lle mae camau o'r fath yn llawer fwy deniadol.

Mae etholwyr y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt wedi dweud wrth Hefin a minnau eu bod yn cael eu tynnu i bob cyfeiriad ar y mater, a hynny gan eu hawdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn arwain ar y mater hwn, gan greu polisïau neu ganllawiau clir i gefnogi ffermwyr, porwyr a chymunedau yr effeithir arnynt. Yn benodol, credwn fod tiroedd comin yn rhan bwysig o gynllun ffermio cynaliadwy arfaethedig y Llywodraeth.

Er mwyn hwyluso ein trafodaethau ar y mater, byddai gennym ddiddordeb yn y wybodaeth a ganlyn:

- Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar y defnydd o deitlau 'Arglwydd y Faenor' i feddiannu tir comin;
- Manylion unrhyw waith polisi y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod y cam o brynu'r teitlau hyn yn llai deniadol;
- Manylion y sefydliad(au) sy'n gyfrifol am y mater hwn a phwy ddylai fod yn cefnogi'r bobl yr effeithir arnynt;
- Pa un a yw'r Llywodraeth wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i sut y gellir diogelu hawliau porwyr ar dir comin pan brynir teitlau 'Arglwydd y Faenor' ar y farchnad agored; a
- Pha un a gafodd y mater hwn ei drafod fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Rwyf yn gwerthfawrogi eich sylw ar y mater hwn, ac edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg